# Ein Bro

Newyddion

Ysgol Bro Hyddgen

News












Hydref 2017 / Autumn 2017

# 2 Gair gan y Pennaeth / Letter from the Headteacher

Annwyl Riant/Ofalwr

Yn gyntaf hoffwn ddiolch i chi'r rhieni am eich cefnogaeth drwy'r tymor.

**Staffio**

Erbyn hyn mae Miss Rhiannon Law wedi ymgartrefu ar y Campws Cynradd ble mae hi'n gyfrifol am yr Uned Arbennig a elwir nawr ***Y Gelli***. Yn rhannu'r cyfrifoldeb am ddarparu cefnogaeth yn y Gelli mae Mrs Carol Lewis a Mrs Julie Price. Ers mis Hydref mae Mrs Liz Stephen wedi ymuno gyda'r staff ar y Campws Cynradd ble mae hi'n gweithio fel cymhorthydd dysgu gyda'r plant iau. Bu'n braf hefyd croesawu Miss Lois Angahrad Evans i'r ysgol ac i ddosbarth Bedwen (Blwyddyn 2) ble mae hi wedi bod yn cwblhau ei Phrofiad Ymarfer Dysgu cyntaf. Mae Lois yn astudio'r cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion ym Mhrifysgol Bangor ac yn hannu o Dywyn. Dymunwn yn dda i ddi ar gyfer gweddill ei chwrs ac yn ei gyrfa yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen i groesawu Mrs Michelle Jones-Roberts fydd yn ymuno â'r staff ar ôl y Nadolig i ddarparu cefnogaeth meddygol ac addysgol ychwanegol i rai o blant y Campws Cynradd.

Hoffwn longyfarch Miss Erin Good sydd wedi cael ei phenodi yn bennaeth adran Bioleg yn Ysgol Gyfun Penweddig. Bydd hi'n dechrau'r her newydd ar ôl y Pasg. Hefyd hoffwn longyfarch Mrs Caryl Morgans a'i gŵr Geraint ar enedigaethei merch fach Megan Celyn, ffrind bach i Marged. Llongyfarchiadau i Mr Tomi Rowlands a Katie ar eu dyweddïad achefyd i Mr Tegid Owen a Bethan ar eu dyweddïad hwythau.

**Cyswllt â'r Gymuned**

Yn ystod y tymor cafwyd nifer o gyfleoedd i'r plant wneud yn fawr o arbenigedd aelodau o'r gymuned leol megis staff Mach Maethlon; Y Parchedig Kathleen Rogers; yr artist Nicky Arscot; staff Gwarchodfa Natur Ynys-hir i enwi ond rhai. Darllenwch ymlaen i glywed mwy o hanes. Mae'n dda medru adrodd hefyd am frwdfrydedd cymaint o blant ar y meysydd chwarae, y pwll nofio ac mewn labordai gwyddonol. Diolch yn fawr i'r staff am fod wedi trefnu rhaglen lawn o ddigwyddiadau sy'n cyfoethogi profiadau addysgol y plant.

**S4C: dydd Gwener 29 Rhagfyr**

Edrychwn ymlaen yn arw at gael gweld 6 o blant y Campws Cynradd yn cymryd rhan mewn rhaglen deledu newydd gaiff ei darlledu ddydd Gwener 29 Rhagfyr.

**Y Sioe Nadolig Cinderella Rockerfella**

Uchafbwynt y tymor i nifer ar y Campws Cynradd yw perfformio'r sioe ***Cinderella Rockerfella***. Dyma berfformiad sydd wedi cynnig profiadau cofiadwy i'r plant ac sydd hefyd wedi bod yn gyfle iddynt feithrin sgiliau pwysig megis cydweithio, cyfathrebu a gwella dysgu a pherfformiad. Hoffwn ddiolch yn arw i'r tîm o staff sydd wedi rhoi o'u hamser i sicrhau bod hon yn chwip o sioe.

**Newidiadau i'r Dull o Fesur Safonau**

Yn ystod y tymor yma mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu gwneud nifer o newidiadau i'r ffordd mae safonau ysgolion yn cael eu mesur. Hyd at eleni, y Dangosydd Lefel 2, gan gynnwys Mathemateg/Rhifedd a Iaith Saesneg neu Iaith Gymraeg oedd yn cael ei fesur yn bennaf; erbyn 2018 bwriedir mesur ysgolion Cymru drwy system bwyntiau wedi eu capio.

Golyga hyn bydd y llywodraeth yn edrych ar y 9 canlyniad TGAU gorau gan bob disgybl. Rhoddir pwyntiau am raddau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| A* - 58 pwynt | A - 52 pwynt |
| B - 48 pwynt | C - 42 pwynt |
| D - 36 pwynt | E - 28 pwynt |
| F - 22 pwynt | G - 16 pwynt |

O'r naw pwnc byddant yn mesur Iaith neu Lenyddiaeth Gymraeg, Iaith neu Lenyddiaeth Saesneg, Mathemateg neu Rifedd; bydd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn cyfrif fel 2 ac wedyn ychwanegir unrhyw 4 pwnc arall.

Pe byddai disgybl yn cael 9 x A* byddai ganddo sgôr o 522, neu pe byddai'n ennill 9 x C byddai ganddo sgôr o 378. Bydd y llywodraeth wedyn yn cyfrifo cyfartaledd yr ysgol ac yn ein gosod mewn band lliw ar gyfer categoreiddio'r ysgol. Credaf fod y system newydd yn well ac yn rhoi cyfle i bob disgybl sy'n gwneud cynnydd i gyfranu at sgôr yr ysgol yn hytrach na phawb oedd wedi cyrraedd gradd C neu well yn yr hen system.

Eleni roedd Sgôr Cyfartalog yr ysgol yn 390.2 sydd yn gryf iawn wrth gymharu gyda sgôr ysgolion tebyg sydd yn yr un Teulu â ni. Mae unarddeg o ysgolion yn ein Teulu gyda Bro Hyddgen yn safle 4 (sef y bedwaredd ysgol gyda'r mwyaf o her o ran plant yn derbyn cinio am ddim a thlodi). Fel y gwelwch o'r tabl isod mae'r ysgol yn gwneud yn well na chyfartaledd y Teulu, Powys a Chymru.



Edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl ar cael cyfle i fwynhau, ymlacio a gorffwyso ym Mis Ionawr. Bydd yr ysgol yn ailagor i blant ddydd Mawrth 9fed o Ionawr 2018.

Tan hynny, dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bob un ohonoch.

Yr eiddoch yn gywir

**Dafydd M B Jones**
Pennaeth
Ysgol Bro Hyddgen

# Gair gan y Pennaeth / Letter from the Headteacher

*Dear Parent / Carer*

*Firstly, I'd like to thank you for all your support during the past term.*

***Staffing***

*Miss Rhiannon Law has settled in well on the primary campus where she has taken charge of the special unit now called **Y Gelli**. Julie Price and Carol Lewis will be sharing the supporting role at the Gelli. Mrs Liz Stephens has been working at the school since October as a learning support assistant. We also welcomed Miss Lois Angharad Evans to Bedwen class (Year2) where she has been completing her first teacher training placement. Lois is from Tywyn and is currently completing her post graduate course at Bangor University. We wish her well with the rest of her studies and future career. Miss Michelle Jones-Roberts will be joining us after Christmas to provide medical and educational support to some of the children on the primary campus.*

*I would also like to congratulate Miss Erin Good on her recent appointment at Ysgol Gyfun Penweddig; she will be starting there after Easter. Congratulations to Mrs Caryl Morgans and her husband Geraint on the birth of their second daughter Megan Celyn who will be a new play mate to Marged. Mr Tegid Owen and Mr Tomi Rowlands recently got engaged to their partners Bethan and Katie; congratulations to them both.*

***Community Links***

*During the term the children have had many opportunities to work with people from the local community, including Edible Mach; Rev Cath Rogers; Artist Nicky Arscot and staff from Ynys-hir nature reserve to name but a few. Read on to learn more about all the extra-curricular activities which have taken place this term including many sporting triumphs. I would like to thank the staff for their hard work arranging excursions and activities that enrich the children's educational experiences.*

***S4C: Friday 29 December***

*We look forward to seeing 6 of our pupils appearing on S4C in a new television programme that will be broadcast on Friday 29 December.*

***Cinderella Rockerfella Christmas Show***

*The highlight of the term for many on the primary campus has been performing the **Cinderella Rockerfella** show. This performance has been an exceptional opportunity for the children to develop important skills such as cooperation, communication and perseverance. I would like to express my gratitude to the team of staff who have given of their time to ensure that this is a show to remember.*

***Changes to the Method of Measuring Standards***

*During this term Welsh Government have decided to make significant changes to the way school standards are measured. To date, the Level 2 Indicator, including attainment in Maths/Numeracy along with either English or Welsh First Language were used as the key measurements; by 2018 Welsh Government intends to measure school attainment through a Capped Points Score system.*

*This means that the government will look each pupil's best 9 GCSE results . Grades are awarded the following points:*

| | |
|---|---|
| *A* - 58 points* | *A - 52 points* |
| *B - 48 points* | *C - 42 points* |
| *D - 36 points* | *E - 28 points* |
| *F - 22 points* | *G - 16 points* |

*To make up the nine subjects, they will measure Welsh Language or Literature, English Language or Literature, Maths or Numeracy; the Welsh Baccalaureate qualification will count as 2 qualifications and then another 4 subjects will be added.*

*If a pupil were to achieve 9 x A* he/she would score 522; if a pupil were to achieve 9 x C he/she would score 378. The government will then work out the average point score for the school and then place the school in one of four colour bands in order to categorise the school. I believe this system is better as it gives every pupil who makes progress the opportunity to contribute towards the school's score, unlike the old system which only took into account those pupils who had achieved a C grade or above.*

*This year the school's average point score was 390.2 which is very strong when compared with similar schools which are placed in the same Family of schools as us. There are 11 schools in the same Family as us with Bro Hyddgen placed in the 4th position (which means that we are the fourth school with the greatest amount of challenge taking into consideration how many pupils receive free school meals and pupil deprivation). As you see from the table below the school's average point score is higher than the Family's average point score, also Powys and Wales.*



*I look forward to welcoming everyone back in January after a well-deserved break when I hope you all have plenty of opportunity to enjoy, relax and rest over the holidays. School will reopen to children on Tuesday 9 January 2018.*

*Until then, I wish you all a very happy Christmas and a Happy New Year.*

*Yours faithfully*

***Dafydd M B Jones***
*Headteacher*
*Ysgol Bro Hyddgen*

# Bore Coffi Macmillan 2017
# Macmillan Coffee Morning 2017





Cynhaliwyd bore coffi yn ystod y tymor gyda'r nod o godi arian i elusen Macmillan. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfranodd tuag at y digwyddiad. Diolch hefyd i'r Chweched Dosbarth am drefnu. Llwyddwyd i godi dros £200 a hynny at achos arbennig o dda.

*A coffee morning was held with the aim of raising money for the Macmillan Cancer Charity. A big thank you to all who contributed towards the event. Thank you also to the Sixth Form for organising it; we raised over £200 for a fantastic cause!*

# Rhywbeth Neis Neis i De

Cynhaliwyd te parti blasus iawn i staff ar ôl ysgol b'nawn Mercher 18 Hydref er mwyn codi arian i Gylch Meithrin Machynlleth. Diolch yn fawr i Carys Jones am fod wedi trefnu ac i Carol Lewis am fod wedi darparu'r danteithion! Diolch hefyd i bawb am fod wedi cyfrannu'n ariannol. Gwnaethpwyd elw o £90.

*A lovely tea party was held after school on the afternoon of 18 October to raise money for Cylch Meithrin Machynlleth. Thank you to Carys Jones and Carol Lewis for providing such wonderful cakes. Also thank you to everyone who contributed to the event. £90 was raised for this good*



# Dyddiadau Pwysig / Important Dates

- 8 / 1 / 2018—Diwrnod Di-ddisgybl / *Non-pupil day*
- 9 / 1 / 2018—Dydd cynta'r tymor i'r disgyblion / *First day of term for pupils*
- 9 / 1 / 2018—Arholiad TGAU Llenyddiaeth Saesneg / *GCSE English Literature Exam*
- 11 / 1 / 2018—Arholiad TGAU Llenyddiaeth Gymraeg / *GCSE Welsh Literature Exam*
- 29 / 1 / 2018—Noson Agored y 6ed / *6th form Open Evening*
- 12 - 16 / 2 / 2018—Hanner Tymor / *Half Term*
- 19 / 2 / 2018—Diwrnod Di-ddisgybl/*Non-pupil day*
- 20 / 2 / 2018—Diwrnod cynta'r tymor i'r disgyblion / *First day of term for pupils*
- 23 / 3 / 2018—Diwedd Tymor / *End of Term*
- 9 / 4 / 2018 – Diwrnod di-ddisgybl / *Non-pupil day*
- 10 / 4 / 2018—Diwrnod cynta'r tymor i'r disgyblion / *First day of term for pupils*
- 25/4 / 2018 – 9 / 5 / 2018— Profion Rhifedd a Darllen (Uwchradd) / *Reading and Numeracy Tests (Secondary)*
- 2 – 9 / 5 / 2018—Profion Rhifedd a Darllen (Cynradd) / *Reading and Numeracy Tests (Primary)*
- 8 / 5 / 2018 – 21 / 6 / 2018—Arholidadu allanol / *External examinations*
- 28 / 5 / 2018 – 1 / 6 / 2018—Hanner tymor / *Half term*
- 20 / 7 / 2018—Diwrnod ola'r tymor / *Last day of term*




**<u>Dyddiadau cau Eisteddfod yr Urdd / Urdd Eisteddfod Closing dates</u>**

- Dyddiad cau **DAWNS CYNRADD AC UWCHRADD** yw **18:00 DDYDD MERCHER 31 IONAWR 2018**. *Closing date for Dancing Eisteddfod Primary and Secondary :6.00 Wednesday 31 January 2018.*
- Dyddiad cau **CYSTADLEUTHAU LLWYFAN** : **18:00 DDYDD MERCHER 21 CHWEFROR 2018**
- ***Closing date for stage competitions 6.00pm Wednesday 21 February***
- Dyddiad cau ar gyfer cystadlaethau CELF, DYLUNIO A THECHNOLEG – CYNRADD : **DYDD GWENER 23 CHWEFROR 2018**
- *Closing date for Primary Art, Design and Technology: Friday 23 February 2018.*
- Dyddiad cau ar gyfer cystadlaethau CELF, DYLUNIO A THECHNOLEG UWCHRADD: **DYDD GWENER 23 CHWEFROR 2018**
- Closing date for Secondary Art, Design and Technology *is Friday 23 February 2018*

Gwirio gan rieni: mae'r system yn caniatáu i rieni wirio'r hyn sydd wedi'u cofrestru gan y canghennau trwy ddefnyddio rhif aelodaeth y plentyn. Ni fydd modd iddynt addasu'r wybodaeth, dim ond derbyn manylion am y plentyn unigol o dan sylw a neb arall.

Parent check: the system allows parents to check the competitions registered by their canghenau' (branches) by using their child's membership number. They will be unable to change or adapt the information, but accept only the information regarding that individual child.



# 6 Presenoldeb / Attendance

Mae Llywodraeth Cymru wedi gorchymyn i bob awdurdod lleol weithredu Hysbysiadau Cosb o dan y Rheoliadau Addysg (Hysbysiad Cosb) (Cymru) 2013. Yng Ngheredigion, bydd hyn yn digwydd o fis Ionawr 2014.
Mae'r Awdurdod yn credu bod unrhyw absenoldeb o'r ysgol, am ba bynnag reswm, yn niweidiol i gyfleoedd bywyd hirdymor y plentyn, felly dylid osgoi hyn os yw yn bosibl o gwbl.
Mae Hysbysiad Cosb yn ddewis yn hytrach nag erlyn gyda'r nod o geisio sicrhau gwelliant ym mhresenoldeb y plentyn yn yr ysgol.

### Apelio yn erbyn Hysbysiad Cosb

Nid oes hawl statudol i apelio o dan y Rheoliadau, ond lle mae rhiant yn herio rhoi Hysbysiad Cosb gallai gysylltu â'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg.

### Pwy fydd yn derbyn Hysbysiad Cosb?

Bydd hysbysiad yn cael ei anfon at bob rhiant mewn perthynas â phob plentyn.
O dan adran 576 o Ddeddf Addysg 1996 mae "rhiant" yn golygu'r person â chyfrifoldeb rhiant a/neu'r rhai sy'n gyfrifol am ofalu am y plentyn o ddydd i ddydd beth bynnag yw eu perthynas gyda'r plentyn.

### PAM Y DYLAI FY MHLENTYN FYND I'R YSGOL BOB DYDD

| | | |
|---|---|---|
| 100% o bresenoldeb | 0 o ddyddiau o ddysgu wedi'u colli | Y cyfle gorau o lwyddo! |
| 95% o bresenoldeb | 2 wythnos o ddysgu wedi'u colli | Bydd presenoldeb gwael yn effeithio ar y dysgu. |
| 90% o bresenoldeb | 4 wythnos o ddysgu wedi'u colli | |
| 85% o bresenoldeb | 5 ½ wythnos o ddysgu wedi'u colli | Mae presenoldeb gwael iawn yn cael effaith sylweddol ar y dysgu. Rydych mewn perygl o gael eich erlyn. |
| 80% o bresenoldeb | O leiaf 7½ wythnos o ddysgu wedi'u colli | |

### Gallai hysbysiad cosb gael ei roi

Pan fydd disgybl wedi colli o leiaf 10 sesiwn neu bum diwrnod ysgol oherwydd absenoldeb heb awdurdod yn ystod y tymor cyfredol, ac sy'n dod â phresenoldeb cyffredinol y disgybl i o dan 90% yn y flwyddyn ysgol hyd yn hyn.
Pan gollir 10 sesiwn neu 5 diwrnod ysgol oherwydd gwyliau yn ystod y tymor ac os yw'r absenoldeb yn mynd â phresenoldeb y disgybl o dan 90% yn y flwyddyn ysgol gyfredol hyd yn hyn.
Pan fydd 10 sesiwn o fod yn hwyr yn gyson ar ôl i'r gofrestr gau mewn tymor gan ddod â'r presenoldeb o dan 90% yn ystod y flwyddyn ysgol gyfredol hyd yn hyn neu gyfuniad o'r uchod.

### Cost Hysbysiad Cosb

Os bydd angen hysbysiad, bydd y rhiant yn cael rhybudd o 15 diwrnod i roi unrhyw dystiolaeth y dymuna ei chyflwyno i'r ysgol i ddadlau pam na ddylai'r hysbysiad gael ei roi. Mater i'r ysgol fydd penderfynu a ddylai'r dystiolaeth gael ei derbyn.
Ni fydd y cyfnod rhybudd o 15 diwrnod yn berthnasol i absenoldeb heb awdurdod sy'n gysylltiedig â gwyliau.
Nid oes cyfyngiadau ar nifer y rhybuddion ffurfiol y gellir eu rhoi.

### Bydd y ddirwy yn:

- £60 os caiff ei thalu o fewn 28 diwrnod, a allai godi i -
- £120 os caiff ei thalu ar ôl 28 diwrnod, ond o fewn 42 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad cychwynnol.

Os na fydd yr Hysbysiad Cosb yn cael ei dalu, yna bydd yr Awdurdod Lleol (ALl) yn ystyried erlyn am y drosedd wreiddiol, sef 'methu â sicrhau presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol' o dan adran 444(A) Deddf Addysg 1996

### Cymorth gyda Phresenoldeb yn yr Ysgol

Cofiwch, os oes rhesymau pam fod eich plentyn yn colli ysgol, rhowch wybod i'r ysgol.

Os nad yw eich plentyn yn yr ysgol, yna siaradwch â'r ysgol cyn gynted â phosibl ar ddiwrnod cyntaf ei absenoldeb.
Disgwylir i'ch plentyn fod yn yr ysgol am 190 diwrnod yn ystod blwyddyn academaidd gyda 175 o ddyddiau i ffwrdd oherwydd penwythnosau a gwyliau ysgol.

### PWY ALLWCH CHI EU FFONIO

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ysgol yn rhoi Hysbysiadau Cosb gan ysgol eich plentyn neu gan Wasanaeth Cynhwysiant Addysg yr Awdurdod Lleol

# Presenoldeb / Attendance

The Welsh Government have instructed all local authorities to implement Penalty Charge Notices under the Welsh Government Education (Penalty Notice) (Wales) Regulations 2013
The ERW consortium believe that any absence from school, for whatever reason, is detrimental to a child's long term life opportunities, so should be avoided if at all possible.
A Penalty Charge Notice is issued as an alternative to prosecution . The aim of which is to promote the improvement in attendance at school of the child.

**Appealing against a Penalty Charge Notice.**

There is no statutory right of appeal against a Penalty Charge Notice under the Regulations, though where a parent contests the issuing of a Penalty Charge Notice they can contact the Education Welfare Service.

**Who will receive a Penalty Notice?**

A Penalty Charge Notice will be issued to each parent, in respect of each child who is absent from school without good reason. Section 576 of the Education Act 1996 defines a 'parent' to include persons who are not parents but who have parental responsibility or care of the child

**WHY SHOULD MY CHILD ATTEND SCHOOL EVERY DAY**

| | | |
|---|---|---|
| 100% attendance | 0 days learning missed | Best chance of success! |
| 95% attendance | 2 weeks of learning missed | Poor attendance will impact on learning. |
| 90% attendance | 4 weeks of learning missed | |
| 85% attendance | 5 ½ weeks of learning missed | Very poor attendance has a significant impact on learning. You are at risk of prosecution. |
| 80% attendance | At least 7 ½ weeks of learning missed. | |

**A Penalty Charge Notice may be issued:**
When a pupil has a minimum of 10 sessions or five school days lost due to unauthorised absences during the current term that brings the pupils` overall attendance at school below 90% in the school year to date.

10 sessions, or 5 school days, are lost due to holidays in term-time if the absence takes the pupils school attendance to below 90% in the current school year to date.

10 sessions of persistent lateness after the register has closed in a term bringing the pupils school attendance to below 90% in the current school year to date.

**The cost of a Penalty Charge Notice.**

If a notice is required the parent will have a warning of 15 days to provide any evidence they may wish to present to the school to argue why the notice should not be issued. It will be for the school to determine if the evidence is accepted.
There is no limit to the number of formal warnings that can be issued.

If the school attendance of the child does not improve then the penalty will be:

The Penalty Charge Notice is for the amount of £120 though this will be subject to a discounted amount £60 should this amount be paid within 42 days.

If the Penalty Charge Notice is not paid at all then the Local Authority (LA) will consider prosecution for the original offence, which is 'failure to ensure regular attendance at school' under sections 444 (1) or 444(1A) of the Education Act 1996.

**Support with School Attendance.**
Please remember that if there are reasons why your child is missing school then keep the school informed.

If your child is off school then speak to the school as early as possible on the first day of their absence.

Your child is expected to be in school for 190 days an academic year with 175 days off due to weekends and school holidays.

**WHO CAN YOU CALL?**
Further information on the issuing of Penalty Notices can be obtained from your child's school or from the Education Welfare Service department of the Local Authority

# 8 Cinderella Rockerfella







Bu'r wythosau diwethaf y tymor hwn yn rhai prysur iawn i blant CA2 sydd wedi bod yn ymarfer ar gyfer y sioe Nadolig Cinderella Rockerfella sydd i'w pherfformio brynhawn Gwener 15 Rhagfyr a nos Lun a nos Fawrth 18 & 19 Rhagfyr. Mae'r cynhyrchiad wedi bod yn waith tîm anhygoel o staff a phlant sydd wedi bod yn cydweithio i ymarfer canu, llefaru a dawnsio; hefyd i adeiladu set a llunio props a chreu gwisgoedd. Does dim dwywaith bod y sioe yn wledd i'r llygad ac i'r glust. Fersiwn gyfoes o stori ***Ulw Ela*** yw'r sioe wedi ei hymblethu gyda dawns a chân ac mae'n braf gweld cyfle i gymaint o unigolion gael cymryd rhan wth i lu o gymeriadau ymddangos ar y llwyfan: yn dylwyth teg (di-adenydd), yn ddawnswyr, yn greaduriaid da a drwg, yn gogyddion, yn llefarwyr neu'n un o'r prif gymeriadau. Dyma i chi sioe lawn hwyl ac asbri: cwbl addas ar gyfer dathlu dechrau'r gwyliau Nadolig. Diolch arbennig i Mrs Ann Eleri Tomos am ei gwaith cydlynu a chynhyrchu.

*The last few weeks of this term have been very busy for Key Stage 2 children who have been busy practising for the Christmas show: Cinderella Rockerfella is to be performed on Friday 15 December and Monday & Tuesday 18 & 19 December. The production has come to fruition thanks to the staff and children's incredible team work as they practised singing, dancing, acting; also creating the set, props and costumes. There is no doubt that the show is a feast for eyes and ears. The show is a contemporary version of the age-old tale of Cinderella, interspersed with song and dance. It is wonderful to see so many individuals taking part as a host of characters appear on the stage: wingless fairies, dancers, good and evil creatures, cooks, speakers and the main characters. All are supported by a full chorus of Year 3 & 4 children. This is indeed a fun-filled show; just the thing to celebrate the start of the Christmas holidays. A huge thank you to Mrs Ann Eleri Thomas for coordinating and directing the show.*

# Cinderella Rockerfella







# Y Cyngor Ysgol / The School Council







**Capteiniaid /*Captain s***

Etholwyd y canlynol yn Gapteiniaid y Campws Cynradd a dymunwn yn dda iddyn nhw wrth iddyn nhw ymgymryd â'u dyletswyddau:

*The following were nominated the Primary Campus Captains. We wish them well as they carry out their duties.*

- Sadie Tucker Anthony
- Lara Halfpenney
- Mabon Jones
- Lucy Callow
- Isabel Owen
- Cody Duckett
- Louis Roberts
- Liam Sully

**Swyddogion Presenoldeb / *Attendance Officers***

Etholwyd Mattie Crompton a Phoenix Williams yn Swyddogion Presenoldeb fydd yn gyfrifol am ddadansoddi data presenoldeb yr ysgol. Yn y gwasanaeth b'nawn dydd Gwener, cyflwynir Tarian Presenoldeb i'r dosbarth sydd â'r canran presenoldeb uchaf bob wythnos. Llongyfarchiadau i ddosbarth Mrs Phillips: Afallen am ennill y darian bedair gwaith yn ystod y tymor a aeth heibio.

*Mattie Crompton and Phoenix Williams have been elected the attendance officers who will be in charge of monitoring the Primary Campus attendance data. In the school assembly, on Friday afternoon's the attendance officers present the attendance award to the class which has the best attendance percentage each week. Congratulations to Mrs Phillips's Class: Afallen for winning the award four times this term.*

**Swyddogion Chwaraeon / *Sports Officers***

Eleni penderfynwyd ethol Swyddogion Chwaraeon i fod yn gyfrifol am hybu gweithgareddau chwaraeon a chadw'n iach. Cyfrifoldeb y swyddogion fydd ennyn ymwybyddiaeth y planto iechyd a ffitrwydd. Rydym yn hyderus y bydd y canlynol yn cyflawni'u dyletswydd yn frwdfrydig:

*This year it was decided to appoint sports officers to promote sport activities and how to keep healthy. The role of the officers will include promoting health and fitness. We are confident that the following will be successful in their new role:*

- Olivia Garrod o lys Crewi
- Nathan Thomas o lys Llyfnant
- Wesley Saunders o lys Dulas
- Connor Evans o lys Dyfi

# Cyngor Ysgol / School Council




**Llongyfarchiadau i Mared Jones ar gael ei hethol yn Brif Ddisgybl am eleni gyda'i dirprwyon Tomos, Amelie ac Erwan.**



**Newyddion Cyngor Ysgol**

Yn ystod y tymor diwethaf rydym ni, yn y Cyngor Ysgol, wedi bod yn trafod beth sydd yn gwneud gwers dda. Cytunwyd fod y Prif Ddisgyblion am barhau gyda'r gwaith yma er mwyn llunio strwythur pendant o beth yw'r elfennau sydd eu hangen er mwyn sicrhau gwers dda. Penderfynodd y Cyngor hefyd y buasai'n braf cynnal gweithgaredd ar gyfer Dementia Friends, sef elusen yr ysgol llynedd, er mwyn coroni'r cyd-weithio fu rhyngddynt a'r ysgol. Cafwyd trafodaeth hefyd am bethau oedd yn poeni'r disgyblion megis dim digon o amser i fwyta cinio, yr angen am fwy o offer chwaraeon ayyb.

***School Council News***

*During the past term, we as a School Council, have been discussing what makes a good lesson. It was decided that the Head Pupils would continue with this work to create a definite structure of what the elements are needed to achieve a good lesson. The Council also decided that it would be nice to hold an activity for Dementia Friends, the school's charity last year, to conclude the collaboration between them and the school. There was also a discussion about things that concerned the pupils such as not enough time to eat lunch, the need for more sports equipment etc.*

**Gwireddu Breuddwydion / *Enabling Dreams***

Anelwn i sicrhau bod yma: / *We aim to ensure we are*:

- Ysgol ble mae ethos Gymreig gadarn, a lle rydym yn datblygu i fod yn ddinasyddion byd-eang sy'n parchu pawb. / *A school where there is a strong Welsh ethos, and where we develop to be global citizens who respect everyone.*
- Ysgol ble rydym yn dysgu sgiliau i sicrhau dyfodol llwyddiannus i ni'n hunain. / *A school where we learn the skills to have a successful future*.
- Ysgol ble mae pawb yn sicrhau'r llwyddiant gorau. / *A school where we all ensure the best level of success.*
- Disgyblion cwrtais a charedig. / *Polite pupils who are kind to each other.*
- Staff cadarn, cefnogol a charedig sy'n gweithio'n galed i sicrhau'r llwyddiannau gorau i bob disgybl – yn academaidd ac yn all-gyrsiol. / *Supportive and kind staff who work hard to ensure the best levels of success for all pupils – academically and in extra-curricular activities.*
- Ysgol ble mae pawb yn awyddus iawn i fanteisio ar bob cyfle, ac yn awyddus iawn i lwyddo. / *A school where everyone is enthusiastic to take advantage of all opportunities,* and is very keen to succeed.

# Croeso i Blant Newydd Cyfnod Sylfaen

## *Welcome to new Pupils in the Foundation Phase*

**Hattie**



Dw i'n hoffi chwarae yn y tywod

*I like playing in the sand .*

**Geraint**



*Dw i'n hoffi chwarae gyda'r trên ac yn y dŵr*

*I like playing with the train and with the water.*

**Cadell**



Dw i'n hoffi chwarae yn y dŵr

*I like playing with the water.*

**Finnley**



Dw i'n hoffi chwarae gyda'r lego

*I like playing with the lego .*



**Zachary**



Dw i'n hoffi chwarae gyda'r deinosor

*I like playing with the dino-saur.*

# Chweched dosbarth fwyaf erioed!



Rydym fel ysgol yn falch iawn o allu croesawu cymaint o fyfyrwyr i flwyddyn 12 eleni gyda nifer fawr yn ymuno â ni o ysgolion cyfagos. Mae 52 o fyfyrwyr wedi cychwyn ym mlwyddyn 12 ym mis Medi gyda 17 o'r rheini o sefydliadau tu hwnt i Fro Hyddgen megis Ysgol y Gader, Ysgol Uwchradd Tywyn, Ysgol Penglais ac Ysgol Ardudwy. Mae hyn felly yn rhoi cyfanswm o 75 yn y chweched - y ffigwr mwyaf erioed yn hanes yr ysgol.

Mae cael chweched dosbarth mor fawr yn wych o beth i'r ysgol a'r gymuned. Tystia'r niferoedd hyn, yn ogystal â chanlyniadau Lefel A a TGAU clodwiw'r haf, i safon yr addysg sydd ar gael yma ym Mro Hyddgen. Llwyddodd pob disgybl a wnaeth gais i fynd i'r brifysgol y llynedd ennill lle mewn sefydliadau addysg uwch ar hyd a lled Prydain ac rydym yn dymuno'n dda iddynt oll.

*As a school we are very proud to be able to welcome so many students to Year 12 this year. Many students form year 11 decided to continue with their education here at Bro Hyddgen with many joining us from nearby schools. 52 students have started in the lower sixth form this September with 17 of those from either Ysgol Bro Idris, Ysgol Tywyn, Ysgol Penglais or Ysgol Ardudwy, Harlech. The total number of students in our sixth form has now reached 75 which is the largest ever sixth form here at Machynlleth.*

*Having such a large sixth form, is an excellent asset to both the school and the wider community. We trust these numbers are increasing once again due to the high standard of education our students are receiving with our GCSE and A-Level results a reflection of this. All of last year's year 13 students who applied for a place at university received offers from institutions across the UK and we wish all of them every success for the future.*

# Y Siarter Iaith: Cymraeg Campus

Amcan y Siarter Iaith ydi ysbrydoli ein plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywyd. Trwy sganio'r cod QR gallwch lawr-lwytho pamffled am ragor o wybodaeth.

*The aim of the Language Charter is to inspire our children and young people to use their Welsh in all aspects of their lives. By scanning the QR code you can download a leaflet which has more information.*

# Canlyniadau TGAU Ysgol Bro Hyddgen 2017



## Canlyniadau TGAU llwyddiannus yn Ysgol Bro Hyddgen

- 5 A* - C: 82%
- 5 A* - C yn cynnwys Cymraeg / Saesneg a Maths: 65%
- Dysgwyr yn ennill 5 A* - A: 16.3%
- A* - C llwyddo yn TGAU: 82%



Gwnaethpwyd cynnydd derbyniol ar ganlyniadau TGAU llwyddiannus llynedd.

- 5 A* - C: 82%
- 5 A* - C yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Maths: 65%
- Dysgwyr yn ennill 5 A* - A: 16.3%
- A* - C llwyddo yn TGAU: 82%

Fis Awst 2017 roedd Ysgol Bro Hyddgen unwaith eto yn dathlu canlyniadau TGAU rhagorol. Llwyddodd 82% i ennill graddau 5A*-C. Roedd nifer barchus iawn o'r graddau yn raddau A*/A neu gyfwerth, gyda 16.3% o'rdysgwyr yn ennill o leiaf 5A*/A. Llwyddodd dysgwyr oedd wedi cyfuno cymwysterau galwedigaethol gyda'u pynciau TGAU i gyrraedd safonau uchel iawn hefyd gyda chyfradd pasio o 100%. Mae pob adran wedi cyflawni llwyddiant arwyddocaol sydd yn adlewyrchiad o waith caled yr holl staff dysgu.

Llwyddiannau nodedig:

- Ffion Davies: 8A*, 5A, 1B a Theilyngdod mewn Mathemateg Ychwanegol
- Harriet Bletcher: 8A*2A, 2B a Theilyngdod mewn Mathemateg Ychwanegol
- Seren Faber: 2A*, 3A and 7B
- Hanna Lewis: 2A*, 3A, 3B, 4C a 1 Rhagoriaeth*
- Heledd Pughe: 2A*, 11B a Pasio mewn Mathemateg Ychwanegol
- Zara Cousins: 1A*, 5A and 6B
- Robyn Williams: 1A*, 5A and 7B
- Amy Jones: 1A*, 3A, 8B and 1C
- Macsen Tomos: 1A*, 3A, 7B and 1C
- Ingrid Holdsworth: 1A*, 1A, 4B and 6C
- Ellie Crowley: 8A, 3B, 2C a Pasio mewn Mathemateg Ychwanegol

Dywedodd y Pennaeth, Mr Dafydd Jones: 'Unwaith eto eleni, hoffwn longyfarch y dysgwyr ar lefelau cyrhaeddiad rhagorol ac rwyf yn ddiolchgar iawn i'r staff am eu gwaith caled ac i'r rhieni am eu cefnogaeth gyson. Mae wedi bod yn flwyddyn heriol i bob ysgol gyda chymaint o newidiadau gan y Llywodraeth sydd wedi cael effaith ar y flwyddyn benodol hon. Rydym wedi canolbwyntio ar ddarparu cwricwlwm o ansawdd uchel a cheisio sicrhau cydbwysedd a chefnogaeth er mwyn darparu cyfle i'r myfyrwyr ddysgu a datblygu ar lefel bersonol - nid i sefyll arholiadau yn unig. Mae'r agwedd hon wedi dwyn ffrwyth fel y gwelir o'r canlyniadau Lefel A derbyniol iawn. Edrychaf ymlaen i groesawu nifer o'n dysgwyr yn ôl i'r Chweched Dosbarth ym mis Medi pan fydd nifer o fyfyrwyr o ysgolion tu allan i dalgylch yr ysgol yn ymuno â nhw.'

# GCSE results at Ysgol Bro Hyddgen 2017



## Very successful GCSE results day at Ysgol Bro Hyddgen

- 5 A* to C grades– 82%
- 5 A* to C grades including Welsh/English and Maths – 65%
- Students achieving 5 A* to A grades – 16.3%
- A*-C grades achieved at GCSE – 82%



*Ysgol Bro Hyddgen makes pleasing progress on last year's successful GCSE results*

- *5 A* to C grades– 82%*
- *5 A* to C grades including Welsh/English and Maths – 65%*
- *Students achieving 5 A* to A grades – 16.3%*
- *A*-C grades achieved at GCSE – 82%*

*Back in August 2017 Ysgol Bro Hyddgen was once again celebrating outstanding GCSE results. 82% achieved 5A*-C. A commendable number of the grades achieved were A*/A grades or equivalent – 16.3% of the pupils achieved at least 5A*/A. Students who have combined vocational qualifications with their GCSEs have also achieved to a very high standard, with a 100% pass rate. All departments have achieved overall significant successes, and this is a reflection of the hard work of all the teaching staff.*

*Notable achievements include:*

- *Ffion Davies: 8A*, 5A, 1B and Merit in Additional Mathematics*
- *Harriet Bletcher: 8A*2A, 2B and Merit in Additional Mathematics*
- *Seren Faber: 2A*, 3A and 7B*
- *Hanna Lewis: 2A*, 3A, 3B, 4C and 1 Distinction**
- *Heledd Pughe: 2A*, 11B and Pass in Additional Mathematics*
- *Zara Cousins: 1A*, 5A and 6B*
- *Robyn Williams: 1A*, 5A and 7B*
- *Amy Jones: 1A*, 3A, 8B and 1C*
- *Macsen Tomos: 1A*, 3A, 7B and 1C*
- *Ingrid Holdsworth: 1A*, 1A, 4B and 6C*
- *Ellie Crowley: 8A, 3B, 2C and Pass in Additional Mathematics*

*Headteacher, Mr Dafydd Jones said: "Yet again this year, I wish to congratulate the students on their outstanding achievements and I'm very grateful to the staff for their hard work, and the parents for their continued support. It has been a challenging year for all schools with so many changes from Government that have affected this particular year group. We have concentrated on having a high quality and balanced curriculum alongside considerable support that gives students time to learn and personally develop not just to sit exams. This approach very much reaps its rewards when students go on to further study as shown by our very pleasing A Level results. I look forward to welcoming many of our students back to our sixth form next year, where they'll be joined by several new students from beyond the school's catchment area".*

# Canlyniadau Lefel A 2017



**Ymhlith y perfformwyr uchaf roedd:**
Ella White – A* AA
Meinir Jones - AABC
Steffan Williams - ABBC
Emma Ames – Rhagoriaeth*/A* BD
Natalie Watson – ABBB
Mali Tomos – ABBC
Lliwedd Jones – ABB
Mared Ingram – ABCC
Alfie Horton – ABC
Mali Tomos – ABBC
Mared Ingram – ABCC
Lliwedd Jones – ABB
Ella White – A* AA
Niamh Cumming – BBBB
Natalie Watson – ABBB
Emma Ames – Rhagoriaeth*/A* BD



**Dathlu llwyddiant canlyniadau Safon Uwch yn Ysgol Bro Hyddgen**

- Mae 75.7% o'r graddau a ddyfernir yn yr ystod A * - C yn Safon Uwch.
- Cyfradd pasio 100% o A * -E yn Safon Uwch ac mewn cymwysterau galwedigaethol.
- Mae 100% o fyfyrwyr Blwyddyn 13 wedi cyflawni 2 radd A * - E neu gyfwerth.

Mae staff a myfyrwyr Ysgol Bro Hyddgen yn falch iawn o ganlyniadau'r Chweched Dosbarth eleni. Mae'r pynciau sy'n cyflawni 100% A * -C mewn lefelau A yn cynnwys Saesneg, Mathemateg, Addysg Grefyddol, Electroneg, Ffrangeg a Hanes. Cyflawnodd pob myfyriwr mewn cyrsiau galwedigaethol i safon Teilyngdod neu well, gydag 81.3% ar lefel Anrhydedd* neu Anrhydedd.

Cafwyd diwrnod difyr ddydd Mercher 11 Hydref, wrth i ddisgyblion yr Adran Iau ddathlu diwrnod T Llew Jones. Cafodd y dosbarthiadau gyfle i fwynhau a gwerthfawrogi rhai o gerddi'r llenor amryddawn, gyda dosbarth Helygen yn ffocysu ar gerddi ar y thema natur e.e. ***Dawns y Dail*** ac ***Y Storm***. Ysgogwyd y disgyblion i gyfansoddi cerddi byr eu hunain ar ffurf haiku. Ymateb yn greadigol i'r gerdd Y Lleidr Penffordd fu disgyblion Afallen, a manteisiwyd ar y cyfle i archwilio geirfa newydd. Bu cryn hwyl yn nosbarth Derwen wrth iddynt greu parodi difyr iawn o'r gerdd ***Pam?*** Diwrnod hwyliog a gwerth chweil!

*Pupils in the Junior Department celebrated T Llew Jones Day on Wednesday 11 October by sharing and enjoying his poetry. During the day, pupils read and performed the famous poet's work. In Helygen class, the pupils were inspired to write their own haikus based on the themes explored by T. Llew Jones in his poetry, while pupils in Afallen, responded creatively to the poem **'Y Lleidr Penffordd'.** The poem **'Pam?'** was the focus for pupils in Derwen class, and they explored rhythm and rhyme by creating a parody of the poem.*

# Dysgu Myfyrio gyda Chalon Fawr (Heartfulness)

Croesawyd Siân Davies, (cyn ddisgybl) sydd bellach yn hyrwyddo tehnegau ymlacio a myfyrio yn y gymuned, i'r ysgol i ddarparu sesiynau blasu i bob dosbarth cynradd. Dan arweiniad Siân a'I chydweithwraig, Karen, ymatebodd y plant yn arbennig i'r ddarpariaeth amgen hon. Yng nghanol bwrlwm diwrnod ysgol, braf iawn oedd cael cau llygaid a diffodd pryderon am ychydig funudau.

*Former pupil, Sian Davies, who is currently promoting relaxation and meditation skills in the community, came to the Primary Campus to offer a taster session to each class. Under the supervision of Siân and her colleague, Karen, the pupils responded very well to the activity. In the middle of a busy school day it was very nice to be able to close our eyes and forget some of our concerns for a few minutes.*

# Llysgenhadon yr Urdd / *Urdd ambassadors*

**Llongyfarchiadau mawr i Aur a Ffion ar gael eu hethol yn llysgenhadon yr Urdd am eleni.**

**Congratulations to Aur and Ffion for being elected this year's Urdd ambassadors.**



Eleni cefais i a FfIon Haf Davies ein penodi'n llysgenhadon yr Urdd dros yr ysgol. Ein swydd felly, ydy sicrhau fod yr ysgol yn llwyr ymroi i'r Urdd a bod y disgyblion yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn cymaint o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg ag sy'n bosib. Hyd yma rydym wedi bod yn gwirfoddoli gyda'r Uwchadran i flwyddyn 7-9 drwy gynnal nosweithiau crefft a choginio. Ar ôl bod mewn cyfarfod sir rydym yn bwriadu trefnu gig 16+ yn Y Cann Office gydag enwau fel Cassette, Mosco, yr Eira a Serol Serol ddiwedd Ionawr. Hoffem sicrhau fod yr Urdd yn apelio at bob grŵp oed a thynnu sylw at ycyfleoedd sydd ar gael. Byddwn yn mynd i Glan-llyn i gynrychioli'r sir ar fwrdd Syr IfanC i leisio barn ar faterion sy'n bwysig i bobl ifanc ynglŷn â'r Urdd a Chymru cyn adrodd yn ôl i fforwm yr ysgol. Rydym yn edrych ymlaen at y profiadau sydd i ddod gyda'r swydd hon.

Aur Bleddyn

*This year myself and Ffion Haf Davies were appointed the Urdd ambassadors for our school. Our role is to ensure the school enrols fully with the opportunities available from the Urdd and take part in as many activities as possible through the medium of Welsh. So far we have been volunteering with the senior Urdd group for years 7-9 by holding arts, crafts and cooking. After attending a County meeting, we have decided to arrange a 16+ gig in the Cann Office with band names such as Cassette, Mosco, yr Eira & Serol Serol at the end of January. We would like to make sure that the Urdd appeals to all age groups and draw attention to the different opportunities available. We will be going to Glan Llyn to represent the County in the young people's group to voice our opinions on issues that are important for young people in Wales before we feedback to the school forum. We look forward to the different opportunities that come with this role.*

*Aur Bleddyn.*

# Llongyfarchiadau / Congratulations

Hoffai staff Ysgol Bro Hyddgen estyn eu llongyfarchiadau i Mr Dafydd Jones a Ms Lisa Raw Rees ar enedigaeth eu mab, Harri. Dymunwn yn dda iawn iddynt yn eu cartref newydd yn y Borth.

*The staff at Ysgol Bro Hyddgen would like to extend their congratulations to Mr Dafydd Jones and Ms Lisa Raw Rees on the birth of their son, Harri. We wish them well in their new home in Borth.*

# STEM BL7

**Dyma esiampl o un o'r cynnyrch terfynol**

**This is an example of a final product**



Eleni mae'r adran Technoleg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg Gwybodaeth wedi uno i gynnal prosiect trawsbynciol ar gyfer Blwyddyn 7. Fel rhan o'u prosiect roedd rhaid i ddisgyblion Blwyddyn 7 werthuso llwyddiant ceir parod, edrych ar aerodynameg, ffynonellau egni, yr amgylchedd a chynhesu byd eang i ateb y prif gwestiwn sef 'A fedrwch ddad-wneud camgymeriadau cenedlaethau'r gorffennol?'

*This year the Technology, Science and ICT department joined to create a cross subject project for Year 7. As part of their project, Year 7 had to evaluate the success of existing cars, learn about aerodynamics, energy sources, the environment and global warning to answer the main question which was, 'Can you undo the mistakes of previous generations?'*

# Diwrnod Gwisgo Coch ar y Campws Uwchradd

Ddydd Gwener 20 Hydref roedd hi'n ddiwrnod gwisgo coch ar y Campws Uwchradd er mwyn cefnogi yr elusen ***redcardwales*** i wrthwynebu hiliaeth.

*On Friday 20/10/2017 it was a day of wearing red on the Secondary Campus with the aim of raising money to support the charity **redcardwales** whose aim is to reduce racism.*



# Cystadleuaeth Pêl Rwyd a Phêl droed yr Urdd Football & Netball Tournament



*Ddydd Iau 12 Hydref, cynhaliwyd cystadleuaeth pêl-rwyd a phêl-droed Cylch Bro Ddyfi. Bu dau dîm pêl-rwyd a dau dîm pêl-droed o'r ysgol yn cystadlu yn erbyn timau o ysgolion Glantwymyn, Carno a Llanbrynmair. Cafwyd gemau cyffrous tu hwnt a chwarae teg gan bawb. Llongyfarchiadau calonnog i dîmau A Bro Hyddgen fydd yn mynd ymlaen i'r rownd rhanbarthol cyn bo hir. Da iawn i'r holl chwaraewyr.*

*On Thursday 12th October, the Urdd Netball and football tournament took place between the Bro Ddyfi cluster schools. Two teams from the primary campus took part, along with teams from Glantwymyn, Llanbrynmair and Carno. Excellent games were played and great sportsmanship was shown by all players. Congratulations to Bro Hyddgen A who will proceed to the next round. Well done to all the players.*









# Sioe Mewn Cymeriad: Hedd Wyn

## Sioe Mewn Cymeriad: Hedd Wyn

## *In Character Show: Hedd Wyn*



Er mwyn cyfoethogi profiad y disgyblion o hanes a diwylliant Cymru, bu disgyblion Blwyddyn 5 & 6 yn gwylio ac yn cymryd rhan yn y sioe Mewn Cymeriad: Hedd Wyn ar b'nawn dydd Gwener 29 Medi. Roedd hi'n sioe ddifyr tu hwnt, yn plethu digrifwch a dwyster.  Roedd yn brofiad gwerth chweil a chofiadwy.

*In order to enhance their understanding and knowledge of Welsh culture and heritage, on Friday 29 September, Year 5 & 6 pupils were given the opportunity to watch and take part in a theatrical presentation of the character Hedd Wyn: Welsh poet killed in action during the First World War. It was an enriching experience for the pupils as the show combined both laughter and sorrow.*

# Llysgenhadon Efydd / Bronze Ambassadors

Cafodd y Capteiniaid Chwaraeon: Olivia, Wesley, Connor a Nathan, ynghyd â Finlay a Jake o Blwyddyn 5 eu dewis yn Llysgenhadon Chwaraeon. Bu'r 6 yn Ysgol Llanbrynmair ddydd Mawrth 26 Medi yn cael eu hyfforddi gan Jonathan Roberts, y Swyddog Datblygu Chwaraeon yn y Gymuned; hefyd y Llysgenhadon Arian o'r Campws Uwchradd: Craig a Sophie. Da gweld y 6 Llysgennad Efydd eisoes yn frwdfrydig yn trefnu gweithgareddau chwaraeon i'w cyfoedion a'r plant bach yn yr ysgol.



*The sports captains: Olivia, Wesley, Connor and Nathan along with Finlay and Jake from Year 5 were selected to be Sports Ambassadors. The 6 received training at Ysgol Llanbrynmair  on Tuesday 26th September with Jonathon Roberts, the Community Sports Development Officer, along with the Silver Sports Ambassadors from the Secondary Campus: Craig and Sophie. It was great to see the 6 bronze representatives arranging activities for their fellow pupils in the school.*

# Diwrnod '**Shwmae Su'mae**' Day



**Clustnodwyd ddydd Gwener 13 Hydref yn ddiwrnod Shwmae**

**Celebrating 'Shwmae Su'mae' Day on Friday 13 October**



Fel rhan o Siarter Iaith Ysgol Bro Hyddgen, clustnodwyd ddydd Gwener 13 Hydref yn ddiwrnod ***Shwmae Su'mae*** a gwahoddwyd pawb i ddod i'r ysgol yn gwisgo dillad coch er mwyn dathlu Cymreictod. Manteiswyd ar y cyfle i hyrwyddo gwerth dwyieithrwydd ac enwebwyd un disgybl o bob dosbarth i ennill Clod y Pennaeth am ddefnyddio'r Gymraeg. Gweler yr enwebiadau isod:

*As part of the Welsh Language Charter the school celebrated '**Shwmae Su'Mae** day on Friday 13 October with an invitation for everyone to come to school wearing red to celebrate their Welsh identity. During the day the advantages of bilingualism were promoted. One pupil from each class was nominated for the Head Teacher's awards for actively using the Welsh language. The nominees were:*

| Dosbarth | Defnyddiwr y Gymraeg |
|---|---|
| Onnen | Charlie Greenwood Dunn |
| Bedwen | Cadi Thomas |
| Celynen | Ella Williams |
| Masarnen | Kia Wright |
| Derwen | Gruffudd ab Ifan |
| Afallen | Ela Thomas |
| Collen | Liam Sully |
| Helygen | Lara Halfpenney |

# Gwasanaeth Diolchgarwch / Thanksgiving

## Ddydd Iau 28 Medi cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch hyfryd yn Eglwys Sant Pedr



Ddydd Iau 28 Medi cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch hyfryd yn Eglwys Sant Pedr gyda phlant Blwyddyn 3 & 4 yn cymryd rhan flaenllaw. Rhoddwyd y casgliad o £155 i'r Parch. Kathleen Rogers fynd gyda hi i brynu adnoddau i bedair ysgol y bydd hi'n ymwleld â nhw yn nhref Lira, Uganda.

*On Thursday 29September a Thanksgiving assembly was held in Saint Peter's Church with Year 3 and 4 children taking a prominent part. £155 was raised for the Rev. Kathleen Rogers to take with her on her visit to a town called Lira in Uganda. There she visited 4 schools and the money was used to buy resources for the schools.*

# Hyfforddiant Seiclo Safonau Cenedlaethol

Yn ystod mis Hydref darparwyd hyfforddiant seiclo i blant Blwyddyn 6 a braf oedd gweld cymaint ohonynt yn gwneud yn fawr o'r cyfle pwysig hwn.

*During October, cycling training was provided to pupils in Year 6 and it was good to see so many of them making the most of this important opportunity.*



# Cyfnod Sylfaen / Foundation Phase





**Thema yn y Cyfnod Sylfaen y tymor yma ydy "Y Goedwig".**

**This term's theme in the Foundation Phase is "The Forest".**



Ein thema yn y Cyfnod Sylfaen y tymor yma ydy "Y Goedwig". Felly, i gydfynd â'n thema bu dosbarthiadau Onnen a Bedwen ar drip i Warchodfa Adar, Ynys-hir. Cawsom gyfle i gerdded o amgylch y goedwig a phrofi nifer o weithgareddau gwahanol – adeiladu cysgodfan, casglu dail, plannu mês, creu darluniau naturiol a choginio wrth y tân. Cawsom ddiwrnod bendigedig er y gwynt a'r glaw!

Dyma adroddiad gan Nansi Bell, dosbarth Onnen a dyma lun o aelodau grŵp 3 yn eistedd yn eu cysgodfan.

*This term's theme in the Foundation Phase is "The Forest". To coincide with our theme, Onnen and Bedwen classes visited the RSPB centre at Ynys-hir. We explored the woodland and took part in various activities – den building, collecting leaves, sowing acorns, creating natural art work and campfire cooking. We had a thoroughly enjoyable day despite the wind and rain!*

*Here's a report by Nansi Bell, Onnen class and here is a photo of group 3 in their den.*

# Cystadleuaeth Pêl Rwyd Urdd

## Cystadleuaeth Pêl Rwyd Urdd Rhanbarth Maldwyn

## Urdd Regional Netball Tournament




Nos Iau 7 Rhagfyr bu tîm yn cystadlu yng nghystadleuaeth pêl-rwyd Urdd Rhanbarth Maldwyn yn Llanfair Caereinion. Chwaraewyd gêmau yn erbyn timau o Ysgol Buttington Trewern, Ysgol Llanrhaeadr ac Ysgol Penygloddfa. Braf oedd gweld y plant yn cydweithio'n rhagorol fel tîm ac yn dangos brwdfrydedd wrth chwarae. Da iawn i bob un fu'n cymryd rhan.

*On Thursday evening 7 December a team participated in the Urdd Regional Netball Tournament in Llanfair Caereinion. Matches were played against Ysgol Buttington Trewern, Ysgol Llanrhaeadr and Ysgol Penygloddfa. Great teamwork and enthusiasm was displayed during all the matches. Well done to all the players.*

# Sioe Bypedau: Y Nyth yn y Gwrych

B'nawn Iau 16 Tachwedd cafodd plant y Cyfnod Sylfaen wledd theatrig ar ffurf sioe bypedau yn dwyn y teitl Y Nyth yn y Gwrych. Cyfareddwyd y gynulleidfa ifanc gan yr olygfa odidog o'u blaen. Diolch i Suzie Kemp sydd wedi bod yn gweithio'n ddygn ers 5 mlynedd yn cynllunio'r sioe ac yn creu'r gwaith llaw – campwaith o gelfyddyd gain! Drwy gyfrwng y sioe dysgodd y plant am gynefin naturiol rhai creaduriaid gwyllt a chysylltwyd hyn wedyn i lythrennau'r wyddor.

*On Thursday 16 November the Foundation Phase children were treated to a theatrical feast in the guise of a puppet show called The Nest in the Hedge. The young audience were transfixed by the beautiful scenery in front of them. The show taught the children about the natural habitat of some wild animals and it was all connected to the letters of the alphabet. The school would like to thank Suzie Kemp for providing such a wonderful artistic experience to the children. Suzie spent 5 years planning and creating the show, all by hand. It is a fine piece of artistic craftsmanship.*



# Diogelwch ar y We

## Cwnstabl Mark Davies yn cynghori plant Blwyddyn 5 & 6 ar sut i gadw'n ddiogel ar lein



B'nawn Llun 13 Tachwedd bu Swyddog Cyswllt yr Heddlu: y Cwnstabl Mark Davies, yn cynghori plant Blwyddyn 5 & 6 ar sut i gadw'n ddiogel ar lein. Atgoffwyd pawb mai 13 yw'r oed cyfreithiol ar gyfer defnyddio gwefannau cymdeithasol megis Facebook, Snapchat, Instagram a Twitter; rhaid bod yn hŷn i ddefnyddio WhatsApp.Pwysleiswyd pwysigrwydd cyfrinair cryf; peidio rhannu gwybodaeth bersonol ar lein; peidio cytuno i fod yn ffrind ar lein i ddieithriaid a pheidio byth cytuno i anfon lluniau dros y we na chwaith i gyfarfod dieithriad. Gweler: https://www.thinkuknow.co.uk/

*On Monday afternoon 13th November the school contact officer Constable Mark Davies give year 5 and 6 pupils advice on how to be safe online.*
*Everyone was reminded that the legal age for using social media websites such as Facebook, twitter, Snapchat, Instagram, WhatsApp and twitter was 13. It highlighted the importance of a strong password; never share personal information online; never befriend someone online you don't know and never agree to send pictures over the internet or meet a stranger. See https://www.thinkuknow.co.uk/*

## Cystadleuaeth Addurno Pwmpen

Bu disgyblion y Campws Cynradd yn dathlu'r Hydref gyda chystadleuaeth addurno pwmpen. Yn y llun gwelir y buddugwyr: Kia, Caitlin, Isaac a John a Mr Tegid Owen a fu'n beirniadu'r gystadleuaeth.

*The Primary Campus pupils celebrated Autumn with a pumpkin carving/decorating competition. Mr Tegid Owen is seen in the picture having been busy judging all the decorated pumpkins.*



# Diwrnod Trosglwyddo

## Diwrnod trosglwyddo llwyddiannus Gwyddoniaeth ac Addysg Gorfforol

## A very successful Science and Physical Education transition day this half term.



Trefnwyd diwrnod trosglwyddo llwyddiannus gan yr adran Wyddoniaeth ac Addysg Gorfforol yn ystod yr hanner tymor yma. Cafodd Blwyddyn 6 y cyfle i wneud arbrofion gwyddonol yn labordy'r campws uwchradd. Roedd y diwrnod yn llwyddiannus dros ben gyda'r disgyblion yn parhau i ddod i adnabod yr ysgol, yr athrawon a gwneud ffrindiau newydd. Bydd cyfle arall i Blwyddyn 6 ymweld â'r campws uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn newydd (gweler ytabl isod)

*A very successful Science and Physical Education transition day was held this half term. Year 6 had the opportunity to complete Science experiments in the secondary campus laboratories. The day was very successful as Year 6 students continued to get to know the school, the teachers and make new friends . There will be another opportunity to visit the secondary campus in the new year (see table below)*

| | | |
|---|---|---|
| Diwrnod arferol / The normal school day | 25/9/17 | x |
| Gwyddoniaeth ac Addysg Gorfforol / Science and Physical Education | 8/11/17 | x |
| Technoleg ac TGCh / Technology and ICT | 23/1/18 | |
| Diwrnod 5x60 / 5x60 Day | 16/4/18 | |
| Prosiect Rhifedd / Numeracy Project | 14/6/18 | |
| Wythnos trosglwyddo / Transition Week | 2-6/7/18 | |

# Ywelìad Dosbarth Afallen â'r Tabernacl

## Ywelìad Dosbarth Afallen â'r Tabernacl *Afallen's Class Visit to the Tabernacle*



Ddydd Mercher 15 Tachwedd bu dosbarth Afalllen yng nghanolfan y Tabernacl yn gwerthfawrogi gwaith yr artist lleol: Nicky Arscot. Fe ddaeth Nicky i gwrdd â'r disgyblion i drafod ei harddangosfa ac i ateb cwestiynau am ei gwaith, ei chefndir a'r hyn sy'n rhoi ysbrydoliaeth greadigol iddi. Bu'n brofiad celfyddydol gwerthfawr iawn i'r plant fydd yn sicr o'u hysbrydoli wrth eu gwaith celf eu hunain. Ymweliad fydd yn aros yn eu cof am amser hir.

*On Wednesday 15th November Afallen class visited the Tabernacle centre where they met with local artist Nicky Arscot. Nicky discussed her work with the children and talked about what gives her creative inspiration. The visit was a valuable artistic experience for the children which will no doubt inspire them at their own art work. A visit to remember!*

## Cystadleuaeth Ffotograffiaeth Plannu Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion / Spring Bulbs for Schools Photographic Competition

Yn dilyn y gweithdy plannu bylbiau'r gwanwyn yn ddiweddar, derbyniodd disgyblion dosbarth Helygen newyddion da bod eu ffotograff o'r digwyddiad wedi ennill gwobr yng nghystadleuaeth ffotograffiaeth Prosiect Bylbiau'r Gwanwyn I Ysgolion. Maent yn edrych ymlaen i ddefnyddio eu gwobr sef pecyn 'Byd Pryfed Genwair' i ddysgu mwy am y creadur bach hwn.

*Following the recent bulb planting workshop, pupils from Class Helygen received the good news that their photograph of the planting event had won a prize in the Spring Bulbs for Schools photographic competition. They are looking forward to learn more about worms by using their prize, a Worm World' pack!*



# ABaCh / PSE

**Yn ystod y tymor hwn, mae nifer o weithgareddau ABaCh wedi bod yn digwydd yng nghyfnod allweddol 3.**

**During this term, a number of PSE sessions have taken place in KS3.**

Yn ystod y tymor hwn, mae nifer o weithgareddau ABCh wedi bod yn digwydd yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae nifer o asiantaethau allanol, megis Heddlu Dyfed Powys, Spectrum, Gyrfa Cymru a Gweithwyr Cymdeithasol, wedi bod yn ymweld á'r ysgol er mwyn darparu sesiynau addysgiadol am nifer o gysyniadau cyfoes

Hyd yma, mae Blwyddyn 7 wedi cael sesiynau am newyn, gwrth-fwlio, etholiadau a gwrthdrawiad.

Yn ystod y tymor, mae Blwyddyn 8 wedi cael sesiynau am dlodi, gwrth-fwlio, perthnasoedd, cyffuriau a chyfeillgarwch.

Ym Blwyddyn 9, mae sesiynau wedi bod yn canolbwyntio ar iechyd, diogelwch ar y cyfryngau cymdeithasol, opsiynau a sesiynau gyda Angela Jones o Yrfa Cymru.

Yn ystod y tymor nesaf, edrychwn ymlaen at groesawu'r frigad dân, Spectrum a Heddlu Dyfed Powys.

*During this term, a number of PSE sessions have taken place in KS3. Numerous external agencies, such as Dyfed Powys Police, Careers Wales and Youth Workers, have visited the school to deliver educational sessions for learners.*

*Up to now, Year 7 pupils have received sessions about hunger, anti-bullying, elections and conflict resolution.*

*During the term, Year 8 pupils have experienced sessions about poverty, anti-bullying, relationships, drugs and friendships.*

*In Year 9, sessions have concentrated on health, safety on social media, options and sessions with Angela Jones from Careers Wales.*

*During the next term, we look forward to welcoming the Fire Brigade, Spectrum and Dyfed Powys Police.*






# Artist lleol Elin Vaughan Crowley







Fis dwetha buom yn ddigon lwcus i gael yr artist lleol Elin Vaughan Crowley i'r ysgol i wneud gweithdy. Gyda Chymreictod a thraddodiadau yn rhan bwysig o'i gwaith roedd ei gwaith yn berthnasol iawn i'n thema celf a thesctiliau ni yn y Chweched. Dosbarth Mae'n siwr eich bod chi'n gyfarwydd â gwaith Elin o brintio llestri ar ddarnau o bapur.

Daeth Elin â set o lestri hyfryd a hen bapurau Blewyn Glas i ni roi cynnig ar weithio drwy'r un cyfrwng â hi. Digri oedd gweld lluniau o gyd-ddisgyblion yn yr hen bapurau! Roedd dewis pwt o golofnau a oedd yn berthnasol i ni'n rhoi dyfnder i'r gwaith a'r celf yn fwy teimladwy. Defnyddwyd y dechneg Printio Mono i luniadu'r cwpannau ac arbrofi gyda phapurau gwahanol a hefyd ffabrigau lliwgar.

Mwynheuais y profiad hwn gan ei fod wedi gwneud i mi feddwl yn fwy eang ond hefyd wedi cyfoethogi fy nealltwriaeth i o gelf. Hoffwn ddiolch i Elin am rannu ei thalent â ni ac am ei charedigrwydd. Pwy a ŵyr, falle gwelwn un o golofnau'r rhifyn nesaf Ein Bro yn cael ei ddefnyddio yng ngwaith Elin yn y dyfodol!

*Last month we were very lucky to have the local artist Elin Vaughan Crowley visit the school to do a workshop. Welsh culture and traditions is an important part of the work and it was suitable with the art textiles theme in the sixth form. I am sure you are aware of Elin's work of printing dishes on sheets of newspaper.*

*Elin brought a set of dishes and old newspapers for us to try with this media. It was strange seeing old pupils photos on old newspapers but we selected good articles which were relevant for us, in order to add depth to our work. We used the Mano Printing technique to draw the images on the cups and experiment with different papers and colourful fabrics.*

*I enjoyed this brilliant opportunity as it made me think widely but also improved my knowledge and understanding of art. I would like to thank Elin for sharing her talent with us and her generosity. Who knows, we might see the next issue of Ein Bro in Elin's next project in the future!`*

*Aur Bleddyn*

# Cwis Pop BBC Radio Cymru

## Cyfle i ysgolion ledled Cymru brofi eu gwybodaeth ar gerddoriaeth



Mae Cwis Pop Radio Cymru yn rhoi cyfle i ysgolion ledled Cymru brofi eu gwybodaeth am gerddoriaeth Gymraeg a Saesneg o bob genre. Aelodau tîm Bro Hyddgen eleni oedd Mared, Lleucu, Lewys a fi. Heriom dîm Gwynllyw yn y rownd gyntaf ac roedd hi'n rownd agos iawn. Roedd rhaid dyfalu pa ganeuon oedd yn cael eu chwibanu; yn cael eu chware 100 milltir yr awr, a dyfalu enwau artist yn 'nabod naw'. Heb anghofio'r rownd canuoci lle chwaraeais i tamborin, Lleucu glockenspiel a Mared bongos am y tro cyntaf! Yn lwcus cariodd Lewys y tîm gyda'i sgiliau cerddorol. Enillom ac aethom drwyddo i'r rowndiau chwarteri yn erbyn Ysgol Plasmawr. Yn anffodus ni drechom y tîm o'r brifddinas ond cawsom lawer o hwyl ac roedd yn brofiad darlledu'n fyw ar y radio. Cawsom Bizzas Dominos i lyncu'n sarhad ac aeth Lewys adre i bwdu!

*This was an opportunity for school across Wales to prove their knowledge for music, Welsh, English and every genre. Members of Ysgol Bro Hyddgen's team this year was Mared, Lleucu, Lewys, and me. The first round was a very close round. We had to guess which music was being whistled, which music was being played 100 miles an hour and guess the artist's name. In the final round, I had to play the tambourine, Lleucu the glockenspiel and Mared the bongos for the first time! Luckily Lewys carried the team with his musical skills. We won and went through to the quarter finals against Ysgol Plasmawr. Unfortunately were not triumphant against the school in the capital city, but we did enjoy ourselves and it was a experience to broadcast live on the radio. We had Dominos to eat to drown our sorrow and Lewys then went home to sulk!*

*Aur Bleddyn*

# Chwedl Branwen



Cafodd ddisgyblion Bl 3&4 gwmni'r Prif Ddisgybl, Mared Jones, yn ddiweddar i drafod y chwedl Branwen.

*Year 3 & 4 pupils learnt about the legend of Branwen in the company of our Head Pupil, Mared Jones.*

# Adran Daearyddiaeth: Hydref 2017



Blwyddyn 8 yn Mesur y microhinsawdd

*Year 8 measuring the Microclimate*





**Adroddiad Adran Daearyddiaeth**

**Tymor yr Hydref 2017**

Bu'r Adran Ddaearyddiaeth unwaith eto yn brysur gyda gwaith maes y Tymor hwn. Bu teithiau Adrannol i Aberystwyth, Ynyslas, Aberdaugleddau, Dinbych y Pysgod a mannau eraill ar hyd Arfordir Sir Benfro. Bu Blwyddyn 8 allan yn mesur a chofnodi elfennau o Ficrohinsawdd yr Ysgol.

Rydym hefyd yn edrych ymlaen at ein Taith i Wlad yr Ia ym mis Chwefror 2018. Hoffwn ddiolch o flaen llaw i deulu Garthwynion am eu cyfraniad helaeth at gostau bws y daith hon. Diolch i Gwenfair Davies Blwyddyn 9 a chyn ddisgybl Beca Jones am drefnu hyn.

Ar ddiwrnod oer a gwlyb ym mis Hydref fe aeth dosbarth 8 Delyn allan i gofnodi elfennau o Ficrohinsawdd yr Ysgol. Cafwyd hwyl a sbri yn dysgu sut i ddefnyddio'r offer yn gywir! Dyma Jo ac Aaron yn dangos sut i fesur cryfder y gwynt gydag anenomedr yn gywir! Aethom i'r Tŷ Crwn i orffen ein hymchwiliad a dyma lun o'r dosbarth yn edrych yn falch eu bod wedi llwyddo i orffen y dasg mewn pryd!

*Once again the department has been extremely busy organising a wide range of fieldtrips and visits this term. Visitis took place to Aberystwyth, Ynyslas, Milford Haven, Saundersfoot and other locations a across the Pembrokeshire Coast. Year 8 ventured out into the wind and rain to collect data on the School's Microclimate.*

*We are also looking forward to our visit to Iceland in February 2018. I would like to extend my thanks to the Garthgwynion Family who have once again given us a substantial contribution towards the travel costs of this trip. Thanks to Gwenfair Davies Year 9 and former pupil Beca Jones for organising this.*

# Geography Department: Autumn 2017

Yn Mis Medi, aeth y grwp TGAU I fesur a chofnodi data ar lifoedd cerbydau a phobl yn Aberystwyth. Bydd y data yma yn cael ei ddefnyddio fel rhain o'u gwaith Ymholiad TGAU . Yma gwelir y dosbarth yn cofnodi llifoedd traffig ger cylchfan y Parc manwerthu.

*In September, the GCSE Group travelled to Aberystwyth to record data on pedestrian and traffic flows, as part of their GCSE Investigation. Here we can see the class recording traffic flow near the Retail Park.*



*On a cold and wet Autumnal day 8 Delyn ventured outside the classroom to record elements of the microclimate across the School's site. We had great fun learning how to use the equipment correctly! Here are Jo and Aaron demonstrating how to use an anemometer correctly. We ended our lesson in the Round House and here is the whole class looking very happy !*

Yr wythnos ganlynol , fe aeth Bl 13 allan i Ynyslas i gofnodi data ar dwyni tywod, gan obeithio medru ateb y cwestiwn "Pa mor llwyddiannus fu'r dulliau rheolaeth twyni yn Ynyslas?"

Ar ddechrau Mis Rhagfyr, bum yn ddigon ffodus i fynychu cwrs breswyl yn Sir Benfro gyda'r Field Studies Council, sydd yn arweinwyr rhyngwladol yn y maes gwaith yma.

*The following week, Year 13 visited Ynyslas to record data on Sand Dunes , hoping to gather evidence enabling them to answer the question "How successful have Management techniques been to manage Ynyslas Sand Dunes?".*

*At the beginning of December we were fortunate enough to attend a Residential Fieldwork Course by the Field Studies Council who are International Leaders in this area.*

Mentrodd grwp o 11 o ddisgyblion sef Dosbarth Mrs Eirian Davies ym Mlwyddyn 12 allan ar Ragfyr y cyntaf (gyda Mr Peter Kenny yn yrrwr y bws mini) ar y daith hir i lawr i Aberdaugleddau yn Sir Benfro. Casglwyd amrywiaeth eang iawn o ddata yno, gan ganolbwyntio ar y cwestiwn "Sut mae'r economi wedi newid yn Aberdaugleddau". Yna, yn ôl i'r Ganolfan astudio Orielton i ymgyfarwyddo gyda'r ganolfan breswyl ac i flasu'r bwyd bendigedig yno.

Yn anffodus cafwyd gwersi ychwnaegol gyda'r nos yno – ond rhaid dweud bod y disgyblion oll wedi gweithio yn wych ac yn gredyd i'w rhieni ac i'w hysgol drwy gydol y daith.

Ddydd Sadwrn roeddem wedi mentro allan yn gynnar yn y bore i astudio prosesau arfordirol. Ymwelwyd â nifer fawr o leoliadau sef Saundersfoot, Amroth, ar hyd bae Sir Benfro. Tynnwyd lluniau, defnyddwyd ipads i gasglu a chofnodi data drwy ddefnyddio apiau fel "Collector App" , mesurwyd dimesiynau'r llwyth ar hyd morlinau amrwyiol a defnyddwyd hafaliad Hudson I asesu effeithlonrwydd y dulliau amddiffyn yno. Diwrnod prysur iawn!

# Adran Daearyddiaeth: Hydref 2017


Pawb yn gweithio'n galed ! / *Mr Kenny doing his homework !*


Stackpole Quay


Aberdaugleddau/ *Milford Haven*


Traeth Barafundle beach / *Sir Benfro Pembrokeshire*

Ddydd Sul, unwaith eto dechreuom yn gynnar (gyda phawb wedi codi ar amser bore ma - !) gan deithio i ardal y Stagbwll, a chyfle eto i wneud rhagor o waith ar yr arfordir yno. Braslunio, defnyddio skitch, ac asesu tebygrwydd y geoleg ar gyfer perygl o fas-symudiad oedd trefn y diwrnod. Cawsom ein syfrdannu gan draeth Barafundle, gyda'i thraeth godidog.

*A group of 11 AS Geography Pupils from Mrs Eirian Davies' Year 12 Geography class ventured to Pembrokeshire at the beginning of December, with Mr Peter Kenny as our trusted minibus driver. We drove for around 3 hours before reaching Milford Haven , our first destination. We studied areas of Milford Haven to answer the questions " How and why has the economy changed? " We then made our way to our home for the weekend, Orielton Fieldwork centre. We enjoyed a hearty supper before spending some more time studying data collection techniques. Even though this involved evening sessions, the pupils worked exceptionally hard, and were a credit to themselves and their school throughout the weekend.*

*Saturday saw us venturing out early to study coastal processes. We visited a number of locations including Saundersfoot, Amroth and other beaches in Pembrokeshire. We took pictures, collected data on ipads using Apps, and measured the dimensions of sediment used as coastal defences using Hudson's equation to assess their effectiveness. A very busy day!*

*Once again on Sunday we faced an early start (with everybody getting upon time ) and we travelled to Stackpole Quay, with again more opportunities to study the stunning coastline there. Today's lesson was focussed on using skitch, and assessing the likelihood of mass movement due to geology type. We were astounded by the beauty of Barafundle Bay, and finished our visit by climbing down to visit one of Wales' best beaches.*

# Ffarwelio gydag Eleri Waters



Hwyl fawr Mrs Waters!

Trist iawn oedd ffarwelio gyda Mrs Eleri Waters yn ddiweddar. Bu Eleri'n gaffaeliaid i'r ysgol am flynyddoedd boed fel cymhorthydd dosbarth neu'n ateb y ffôn yn y swyddfa. Bydd colled enfawr ar ei hôl a dymunwn yn dda iawn iddi yn ei hanturiaethau newydd.

*Farewell Mrs Waters!*

*It was a sad day for all of us on the secondary campus bidding farewell to Mrs Eleri Waters. Eleri has been a magnificent asset to the school be it as a class assistant or answering the phone in the office. We wish her all the very best with her future endeavors.*

# Canu gyda Bryn Terfel

Mae rhai o ddisgyblion (a staff!!) yr ysgol wedi bod yn canu gyda Bryn Terfel fel rhan o gyngerdd Ysgol Theatr Maldwyn. Darlledir y rhaglen ddiwrnod Dolig!

*Pupils and Staff from the school had the opportunity to sing with Bryn Terfel during a Theatr Maldwyn concert which will be broadcast on Christmas day!*





Canu gyda Bryn Terfel Tud: 59




Sioe Nadolig Campws Cynradd Tud: 8

Diolch yn fawr iawn i Mr Ellis, Mrs Currie, a Mrs Haf Ap Robert am olygu'r rhifyn hwn o Ein Bro

*Thank you very much to* Mr Ellis, Mrs Currie, a Mrs Haf Ap Robert *for editing this Edition of Ein Bro*